**EITEM AR YR AGENDA: 13**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU
# PANEL GWEITHREDOL

**22ain Medi 2008**

**Aelodaeth o Weithgorau**

**Adroddiad gan Dawn Docx**
**Prif Swyddog Cynorthwyol (Adnoddau)**

## Diben yr Adroddiad

**1.** I ofyn am enwebiadau gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru am aelodaeth o Weithgor Cefnogi a Datblygu Aelodau a Hyrwyddwyr Diogelwch Cymunedol; Adolygiad Tân Wrth Gefn a Risg a'r Grŵp Partneriaeth Strategol.

## Cefndir

**2.** Yn ystod bywyd blaenorol yr Awdurdod Tân ac Achub, fe gafodd Gweithgor Cefnogi a Datblygu Aelodau a Hyrwyddwyr Diogelwch Cymunedol ei ymgynnull. Roedd hyn mewn ymateb i'r nifer uchel o danau damweiniol mewn cartrefi yn yr ardal. Mae gan y ddau Weithgor gylch gwaith deuol:

- cynnal a gwella gysylltiadau gwaith rhwng yr Awdurdod a'r cynghorau cyfansoddol yn yr ardal o ddiogelwch cymunedol.

- cefnogi a datblygu aelodau yn unol ag egwyddorau 'Breinlen Cymru ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau'. Mae'r cylch gorchwyl llawn y Gweithgor i'w weld yn adran 5 o lawlyfr yr Aelodau.

**3.** Gofynnir am enwebiadau am chwe aelod, un aelod i gynrychioli pob cyngor cyfansoddol, i eistedd ar y Gweithgor sy'n cwrdd oddeutu unwaith bob yn ail fis.

**4.** Yn ystod cyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ar 16eg Mehefin 2008, penderfynwyd fod y gwaith paratoi mewn cysylltiad â chynnig 4 o'r Cynllun Lleihau Risg i gychwyn ar unwaith. Mae'r gwaith yma'n ymwneud â mapio a dadansoddi'r risgiau a'r adnoddau sydd ar gael i gwrdd â'r risgiau yma ac yn ffurfio rhan bwysig o'r Cynllun Lleihau Risg llawn fydd yn cael ei gynhyrchu a'i gyhoeddi yn 2009.

**5.** Er bydd y gwaith yma'n cael ei drafod yn ystod Gweithgor y Cynllun Lleihau Risg a chyfarfodydd o'r Awdurdod, byddai'n fuddiol os gallai aelodau gyfranogi ym manylion y gwaith a chwrdd yn amlach. Felly, gofynnir am enwebiadau am dri aelod, yn cynrychioli diddordebau gwahanol ar draws Gogledd Cymru, i eistedd ar y Gweithgor.

**6.** Mae'r grŵp partneriaeth Strategol yn cwrdd bob chwarter sy'n arolygu ac yn cyfeirio'r trefniadau cefnogi gwasanaeth ar y cyd rhwng Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a Gwasanaeth Ambiwlans Cymru. Gofynir am enwebiadau am aelod i fynychu'r cyfarfodydd yma a chynrychioli Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

**7. Argymhellion**

Y gwneir tri apwyntiad i'r tri Gweithgor yma.